

**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangoed a Phenmon.  
A gynhaliwyd ar Nos Fercher Mehefin 11fed 2014  
am 7 - 0 o'r gloch.**

1. **Croeso** - Agorwyd y Cyfarfod gan y Gadeirydd Cyng. G Moore, gan estyn croeso cynnes i bawb oedd yn bresennol.  
**Presennol** - Cynghorwyr Gareth Moore (Cadeirydd), Emlyn Jones (Is-Gadeirydd), Mary Ellis, Dafydd Roberts, Ruth Roberts, Delyth Jones, Wyn Hughes, Alwyn Rowlands a Geraint Parry (Clerc).
2. **Ymddiheuriadau:-**  
Cyng. Alan Owen, Ann Roberts, Carwyn Jones a Lewis Davies
3. **Cofnodion**  
Derbyniwyd Cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 14ddeg o Fai, fel rhai cywir gan Cyng. E Jones ac eiliwyd gan Cyng. D Roberts wrth newid 2 pwynt.  
Bawb i anfon ymlaen unrhyw faterion sydd angen ei godi, wythnos o flaen y cyfarfod nesaf i'r Clerc.
4. **Materion yn Codi o'r Cofnodion**
  - 4.1 **Sgwâr Tawelfan** - meinciau i gael ei gosod cyn diwedd y mis. Cyng. D Jones wedi bod yn llwyddiannus cael grant "Keep Wales Tidy" a "Tidy Towns" er mwyn cael gweithio gyda'r ieuenctid lleol i blannu blodau a chwynnu. Gwaith i ddechrau 26/06/14. Clerc i ofyn i berchennog Tŷ Newydd dorri'r clawdd ochr y sgwâr.
  - 4.2 **Giatiau'r Eglwys** - wedi ei hatgyweirio.
  - 4.3 **Giât ar lwybr troed Gwelfor** - Swyddog Ardal o Harddwch y Cyngor Sir wedi bod ar y safle, disgwyl gwybodaeth.
  - 4.4 **Llwybr concrit Tawelfan** - Clerc a Cyng. L Davies wedi ysgrifennu i Adran Tai y Cyngor Sir ynghlyn a chyflwr y llwybr. Hefyd mae'r clawdd yn gordyfu dros y llwybr. Clerc i weithredu.
  - 4.5 **Clawdd ar dop allt Mariandyrus** - Cyng. L Davies wedi cysylltu gyda Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn cael torri'r clawdd ger Llwyn Onn, eglurodd fod hyn yn gyfrifoldeb y Cyngor Sir.
  - 4.6 **Gamfa Cerrig** - Clerc wedi codi'r mater gyda swyddog AHNE.
  - 4.7 **Adeiladu Ward Cymunedau Seiriol** - Cyng. E Jones wedi ymuno ar gyfarfod 20/05/14 wrth adrodd fod Toolkit wedi ei pharatoi er mwyn cael gwybodaeth ar amllder cyfarfodydd grwpiau yn yr ardal. Clerc i osod y wybodaeth ar y wefan. Cyng. A Rowlands yn adrodd - mae angen fod yn ofalus nad ydym yn preifateiddio gwasanaethau drwy ddulliau eraill.
  - 4.8 **Awdit 2013/14** - gwaith wedi ei gwblhau ai anfon ymlaen.
  - 4.9 **Tô Warchodfa Bws** - Clerc wedi derbyn pris i atgyweirio o £150. Penderfynwyd edrych am bris arall.
5. **Datgan Diddordeb**
  - Cyng. G Moore ar drafodaeth Neuadd y Pentre'
  - Cyng. D Jones ar drafodaeth Grŵp Cymunedol
6. **Sylwadau Ceisiadau Cynllunio**  
Dim cais i drafod.  
**Er Gwybodaeth**
  - Cais 35C316 - cais llawn ar gyfer dymchwel y modurdy presennol ynghyd a chodi caban iw defnyddio fel stiwdio arlunio ar gyfer defnydd achlysurol i'r annedd yn Tyn y Caeau, Penmon - wedi ei caniatáu.
7. **Adroddiad gan y Cynghorwyr Lleol**  
Clerc yn darllen e-bost oddiwrth Cyng. L Davies:-
  - 7.1 Wedi cael diwrnod llwyddiannus i'r plant gan Ffrindiau Llangoed. Grŵp wedi gweithio'n galed i drefnu a pharatoi'r bwyd.
  - 7.2 Agorwyd Neuadd Llangoed 6/06/14 i ddathlu gwaith mawr o adnewyddu'r nenfwd. Diolch i bawb a gweithio mor galed.
  - 7.3 Lonydd yr ardal yn cael eu torri yn ystod y tair wythnos nesaf.
  - 7.4 Wedi trafod cyflwr y lonydd gyda Swyddog y Cyngor Sir, am wneud archwiliad.
  - 7.5 Arwyddion gwahardd dros nos yn Lleiniog a Tŷ Gwyn wedi ei gosod, mae llawer llai yn manteisio. Heddlu yn cadw llygaid ar yr ardal.
  - 7.6 Wedi trafod cais cynllunio'r Rhyd gyda Swyddog priodol, gan fynegi pryderon ynhyllch a charffosiaeth, dwysedd tai ar y safle ar fynedfa.
  - 7.7 Disgwyl gwybodaeth ynhyllch perchnogaeth Bont Glan-llyn.

Cyng. A Rowlands:-

7.8 CCTV, cyfarfod i gael ei drefnu gydag Arolygydd yr Heddlu i drafod dyfodol y gwasanaeth. Mae gobaith y bydd rhai o'r Cynghorau Tref yn cymryd peth o'r gwasanaeth i fyny.

7.9 Taith feicio hwyl - wedi bod yn llwyddiannus, codi tua £1,200 sydd i gael ei rannu gyda'r Cymunedau lleol. Bydd dewis dri llwybr yn ras blwyddyn nesaf.

8.0 Gwasanaethau Meithrin - Cyngor Sir wedi penderfynu peidio â newid y gwasanaeth hwn, i'w adolygu Ebrill nesaf.

### **8. Neuadd y Pentre'**

Cyng. G Moore yn adrodd fod parti ar 6/06/14, nifer wedi ymuno.

Parti priodas wedi ei drefnu ar 21/06/14.

Pwyllgor yn meddwl gwneud cais am drwydded digwyddiad llawn nawr.

Dilyn cyfarfod mis diwethaf lle cafodd sylwadau ei godi ynghylch cyflwr y Neuadd, rydym wedi derbyn llythyr gan Cadeirydd y Pwyllgor yn mynegi eu dichter a siom am y sylwadau dilyn ymdrechion y pwyllgor yn ystod y gwaith mawr a wnaed diweddar.

Penderfynwyd bod unrhyw sylwad yn y dyfodol ynghylch y Neuadd yn cael ei gyfeirio yn syth at bwyllgor y Neuadd.

Cyng. A Rowlands yn awgrymu bod Coleg Menai yn creu prosiect gywiro'r ffens. Cadeirydd i drafod ymhellach.

### **9. Prosiect Afon Lleiniog**

Cyfarfod 10/06/14 - Ruth, Emlyn, Simon ar Clerc.

- Contract Glastir - Simon wedi cysylltu â dau gontractwr i drafod y gwaith dan sylw, gan obeithio cael dechrau gwaith diwedd Mehefin. Wedi derbyn cwynion ynghlyn a chyflwr y llwybrau.
- Angen gwaith cynnal a chadw ar lwybr pren yn y Warchodfa natur.
- Wedi darganfod dau faes lle mae'r llyisiau'r dial yn tyfu, ger Plas Iolyn ac o flaen Tai Haulfre.
- Clerc i gysylltu â Menter Môn i ofyn a oes unrhyw daflenni ar gael.

### **10. Grŵp Cymunedol - Ffrindiau Llangoed**

• Ddim wedi bod yn llwyddiannus gyda chais am grant i gael offerion chwarae i'r pod.

- Trio am grant "Community Chest" i gael offer chwaraeon i'r plant, a grant i bwrcasu swing anabl a chastell pren.
- Cyfarfod nesaf o'r grŵp 25/06/14 yn Neuadd y Pentre'.

### **11. Cyfrifon**

**Taliadau**, penderfynwyd talu:-

Cyngor Sir, torri gwair a chynnal a chadw llwybrau 2013/14 gan Gerddi Haulfre - £2,311.32.

Clerc yn rhannu gwybodaeth ynghlyn ac incwm a gwariant 2013/14.

### **12. Gohebiaeth**

e-bost - agenda cyfarfod grŵp Seiriol

e-bost - arolwg grŵp Seiriol ar y we

e-bost - Cyng. L Davies

e-bost - Cyngor Sir, cyfarfod fforwm cyswllt cynghorau tref a chymunedau 12/06/14 am 7 o'r gloch

Llythyr - Cyngor Sir, Llwybr Tawelfan

Llythyr - Pwyllgor y Neuadd

Llythyr - Cyngor Sir, arolwg mynwentydd a mannau chwarae

Llythyr - Cyngor Sir, hyfforddiant cod ymddygiad

Pecyn - Un Llais

### **13. UFA:**

13.10 Cyng. M Ellis - yn adrodd bod angen torri Waen Bay View a thŷ cefn i'r Warchodfa Bws. Clerc i weithredu.

13.11 Cwynion - llwybr ger Tan Pentre' Bach angen ei dorri. Tyllau yn y lôn ger Gamar. Canghennau yn hongian dros y ffordd ger Haulfre, ar draen gerllaw wedi'i blocio. Arwydd ar allt Penmon, na ellir eu gweld oherwydd y gordyfiant.

13.12 Bin glas yn y Cae Chwarae angen ei wagio. Hefyd fydd angen ail-osod y teils sbwng du o gwmpas yr offerion chwarae.

13.13 Cyngor Sir yn trefnu sesiwn Cod Ymddygiad, cymryd lle 29/10/14. Clerc yn rhannu pecyn enghreifftiau i'r Cynghorwyr.

- 13.14 Y ddau arwydd ger Sunnybrook wedi cael eu troi.
- 13.15 Tir Comin ger Gorwel wedi ei dorri.
- 13.16 Lôn Wern mewn cyflwr gwael iawn.
- 13.17 Tarmac o amgylch y blwch ffibr optig ar allt Mona Terrace wedi codi.
- 13.18 Clerc i ymuno a chyfarfod fforwm cyswllt cynghorau tref a chymunedau 12/06/14
- 13.19 Clerc wedi llenwi arolwg ar fynwentydd ar ardal a mannau chwarae

**14. Dyddiad cyfarfod nesaf:**

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniad.  
Daeth y cyfarfod i derfyn am 9.55 o'r gloch.  
Cyfarfod nesaf 9/07/14

Llofnod y Cadeirydd

Dyddiad